Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

## TAFLEN ADRODDIAD / CRYNODEB PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD– CYF.** ~~D[illegible]5~~ DLI 075

**Amseru: Arferol**
**(31/05/2018 – Bydd hyn yn caniatáu i'r cyfraniad gael ei dalu o fewn y gofyniad o 30 diwrnod)**

**Teitl: Cyfraniad tuag at Brake – Yr Elusen Diogelwch y Ffyrdd – 2018/19**

**Categori Penderfyniad: Cyfraniad Comisiynu – 2018/19**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswyddau statudol i gomisiynu gwasanaethau ar gyfer helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi dioddefwyr ac unigolion eraill yn Nyfed-Powys sy'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys dioddefwyr trosedd a'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan drosedd.

Mae Brake – Yr Elusen Diogelwch y Ffyrdd yn elusen sydd wedi'i hen sefydlu ym Mhrydain ac yn un sy'n cael ei pharchu. Mae'n darparu gwasanaethau cymorth ar gyfer pobl sydd wedi colli rhywun, neu sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol, mewn gwrthdrawiad ffordd, yn ogystal â'r teulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi. Mae Brake yn cynnig llinell gymorth genedlaethol ar gyfer preswylwyr y DU sydd mewn galar neu sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol yn dilyn gwrthdrawiad, y rhai sy'n gofiau am rywun sydd mewn galar neu sydd wedi'i anafu'n ddifrifol, neu weithwyr proffesiynol, megis yr heddlu, athrawon neu weithwyr iechyd, sydd eisiau cyngor ynghylch sut i helpu pobl sydd wedi'u heffeithio.

**Argymhelliad:**

Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo'r gefnogaeth ariannol barhaus y mae wedi dangos yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf drwy gyfrannu £2,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf fuddiant personol neu niweidiol yn y mater hwn, ac rwyf yn dod i'r penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod / Rwy'n nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol)

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 08/05/2018**